

CYN- FYFYRWYR CBCDC

CYLCHLYTHYR
HAF
2019



**ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU**

www.rwcmd.ac.uk

CROESO GAN Y PRIFATHRO



FEL PRIFATHRO NEWYDD Y COLEG, FY MRAINT I YW EICH CROESAWU I RIFYN CYNTAF Y CYLCHLYTHYR HWN I GYN-FYFYRWYR.

Pan gamais i mewn i adeiladau hardd Coleg Brenhinol Cymru, gwnaed argraff arnaf gan yr ysbryd oedd yno, ansawdd y bobl sy'n creu ei gymuned, a gan ei botensial pellach. Rwy'n edrych ymlaen at gysylltu â chi wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf ei ddatblygiad.

Mae Cymru yn wlad sy'n gwneud yn well nag y gellid disgwyl iddi, o ystyried ei maint, mewn cymaint o ffyrdd, ac mae'r Coleg yn enghraifft dda o hyn. Mae'n amlwg ar unwaith ei fod yn fan lle caiff dyfodol arfer proffesiynol ym meysydd cerddoriaeth a'r theatr ei siapio. Bob diwrnod gwelaf angerdd unigol yn cael ei feithrin yng nghanol sylw dwys i waith ensemble a theimlad o rannu siwrneiau – wedi ymdrwytho mewn profiadau o waith proffesiynol.

Yr argraff gryfaf a gaf yw y gelwir ar bob myfyriwr yn y Coleg i ganfod ei lais unigryw ei hun, a bod nifer o lwybrau gyrfa yn dod i'r amlwg. Yn ogystal â'r rheini sy'n cyrraedd goleuadau llachar ein llwyfannau rhyngwladol, mae eraill yn creu eu sioeau eu hunain, dod yn unigolion allweddol yn y stiwdios ffilm mwyaf newydd, datblygu gyrfaoedd portffolio cyfoethog ac amrywiol, creu cyffro yn y diwydiant gemau, neu'n gosod gwreiddiau ym maes addysg.

Mae'r dull hwn yn rhywbeth i'w ddatlu, ac yn aml yn rhan hollbwysig o lwyddiant. Felly, fy ngobaith

yn ystod y misoedd nesaf yw cael cyfle i gwrdd â nifer ohonoch, cael clywed eich storïau, am eich siwrneiau proffesiynol a'ch profiadau o'r Coleg.

Rydym nawr yn gweithio'n brysur i fapio cyfeiriad strategol y Coleg ar gyfer y pum i ddeng mlynedd nesaf. Nid oes amheuaeth ein bod yn byw mewn cyfnod heriol am nifer o resymau economaidd, gwleidyddol, amgylcheddol a chymdeithasol. Ond mae cyfleoedd cyffrous o'n blaenau wrth i ni feddwl am ymrwymiad y Coleg i ddyfodol cerddoriaeth a'r theatr, ein rôl fel Conservatoire Cenedlaethol Cymru, ein potensial i wneud cysylltiadau rhyngwladol a gweithio ar y llwyfan byd-eang, a'r angen i arloesi ein harfer, nid y lleiaf wrth edrych tuag at gymdeithasau mwy cynhwysol yn gallu cofleidio cyfoeth amrywiaeth.

Cofiwch gadw mewn cysylltiad, a galwch draw pan fyddwch yng Nghaerdydd. Mae'r drysau bob amser yn agored.

Diolch o galon.

Helena F. Gaunt

Yr Athro Helena Gaunt
Prifathro

Llun y clawr: Llwyfan Coleg Brenhinol Cymru
Efrog Newydd. Llun gan Dan Callister.

DA IAWN! RHAI UCHAFBWYNTIAU

ERIC HALLENGREN (2017)

The Band – Das Musical ym Merlin.

ANTHONY BOYLE (2016)

Fe'i gwelir yn *Tolkien*. Mae hefyd wedi'i gastio yn addasiad teledu HBO o *The Plot Against America* gan Philip Roth

TIANYI LU (2016)

Arweinydd Cynorthwyol Cerddorfa Symffoni Melbourne.

EDWARD BLUEMEL (2015)

Yn dilyn ymlaen o *Sex Education* ar Netflix, bydd yn chwarae rôl Hugo yn Nhyrnor *2 Killing Eve*.

LUKE MCCALL (2014)

Serennu ochr yn ochr â Kelsey Grammer yn Man of *La Mancha*.

HELEDD GWYNN (2013)

Rhestr fer ar gyfer Gwobr Ian Charleson 2018 y National Theatre ar gyfer rolau Katharine a Dauphin yn *Henry V*. **ARTHUR HUGHES** rhestr fer yn 2017, **THALISSA TEIXEIRA** enillydd yn 2014, **AMY MORGAN** enillydd yn 2012.

GABRIELLA SLADE (2012)

Enwebwyd am Wobr Olivier ar gyfer Gwisgoedd Gorau yng nghynhyrchiad o *Six* yn yr Arts Theatre.

OLIVER HOWELLS (2011)

Trefnydd/Trefnydd Cerddorfa/Arweinydd/ Offerynnwr ar gyfres *Dynasties* David Attenborough ar y BBC, derbynnydd Ysgoloriaeth Gelfyddydau Sky Academy a chyfnod Artist Preswyl 3 mis yn Q's Quincy Jones yn Palazzo Versace, Dubai.

CLAIRE FURLONG (2011)

Rheolwr Dysgu a Chyfranogi, Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Jazz.

MATTHEW HARDY (2010)

Prif Dimpani, Cerddorfa Symffoni Dinas Birmingham.

JUSTINA GRINGYTE (2010)

Canwr Ifanc y Flwyddyn 2015 yn y Gwobrau Opera Rhyngwladol.

CHRIS AVISON (2009)

Prif Drymped, Cerddorfa Symffoni Bournemouth.

CLARE DUNNE (2009)

Ysgrifennu a serennu yn y ffilm nodwedd *Herself*, a gyfarwyddwyd gan Phyllida Law.

TOM CULLEN (2009)

Ail dymor *Knightfall* sydd nawr yn cael ei ddarlledu ar History Channel, hefyd ysgrifennu a chyfarwyddo *Pink Wall* a welwyd am y tro cyntaf yn ddiweddar yn SXSW. Fe'i ffilmwyd yn rhannol yn CBCDC. Bydd yn gweithio yn fuan ar ddrama annibynnol/drama drosedd *Castle in the Ground*.

ANEURIN BARNARD (2008)

Chwarae'r brif rôl, sef Theo, yn *The Goldfinch*, i'w ryddhau ym mis Hydref 2019, wedi'i seilio ar nofel Donna Tartt a enillodd Wobr Pulitzer.

ERIN RICHARDS (2007)

Still in *Gotham*, tymor 5.

DAVID CHILDS (2004)

Athro Ewffoniwm, Prifysgol Gogledd Texas.

ANITA REYNOLDS (1996)

Yng nghynhyrchiadau'r Globe a fydd yn digwydd yn fuan, sef *Merry Wives of Windsor* a *Bartholomew Fair*.

Hoffem wybod beth yw eich hanes nawr, felly cysylltwch i ddweud wrthym: alumni@rwcmd.ac.uk

DIWRNOD YM MYWYD RHEOLWR LLWYFAN



CYFNOD 'NEWYDD' OEDD Y GWANWYN UNWAITH ETO! DYCHWELODD EIN GŴYL YSGRIFENNU NEWYDD AM EI CHWECHED BLWYDDYN RYFEDDOL.

Mae NEWYDD yn rhoi cyfle i Gwmni Richard Burton y Coleg weithio ar ddramâu sydd wedi'u hysgrifennu'n arbennig ar ei gyfer gan bedwar awdur sy'n dod i'r amlwg, ac a gyfarwyddir gan rai o ddoniau mwyaf cyffrous y DU.

Mae'r Coleg yn cydweithio â phedwar cwmni theatr rhagorol, Paines Plough, Royal Court Theatre, Theatr Sherman a The Gate Theatre, i greu pedair drama newydd sbon sy'n procio, herio ac ysbrydoli, gan ofyn y cwestiynau mawr - eleni ymdrinnir â phopeth o'r diwylliant cyffuriau i wtopia llawen lle mae natur yn dechrau arglwyddiaethu...

PWY YDYCH CHI, PA GWRS YDYCH CHI'N EI DDILYN?

Fy enw i yw Jessica Forella. Rwy'n fyfyrwr ar y cwrs MA Rheoli Llwyfan a Digwyddiadau, ac yn dod yn wreiddiol o Efrog Newydd.

SONIWCH WRTHYF AM EICH CWRS, CRYNODEB O DDIWRNOD GWAITH ARFEROL?

Mae'r cwrs yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar adeg y tymor. Yn ystod y sesiynau addysgu mewn ystafelloedd dosbarth byddwn yn gwneud gweithgareddau sy'n amrywio o drafodaethau am reoli i rai ymarferol technegol. Yn ystod cyfnod lleoliadau (sef y rhan fwyaf o'r amser ar y cwrs) byddwn yn gweithio ar sioeau, felly dylanwadir ar ein hamserlenni gan anghenion y sioe a beth yw ein rôl ynddi. Fel Rheolwr Llwyfan ar gyfer NEWYDD2019 roedd yn rhaid i mi drefnu llawer o gyfarfodydd rhwng adrannau, mynd i'r ystafell rihyrsio pan fo hynny'n bosibl, ac yna cynnal y sesiynau technegol pan fyddai'n bryd gwneud hynny.

SONIWCH RAGOR WRTHYF AM YR HYN RYDYCH YN GWEITHIO ARNO AR HYN O BRYD (GAN GYFEIRIO AT LOAM)?

Loam yw un o'r gweithiau newydd a gomisiynwyd gan y Royal Court ar gyfer NEWYDD2019 yn CBCDC. Fe'i ysgrifennwyd gan Bea Roberts ac mae'n hynod ddoniol ac yn sylwebaeth ddwysbigol ar ein perthynas â'r amgylchedd. Canolbwyntiodd y Cynllunydd ar ganfod deunyddiau a wnaed mewn modd cynaliadwy.

BETH OEDD YR UCHAFBWyNTIAU AR HERIAU?

Mae cymryd rhan mewn datblygu gwaith newydd bob amser yn brofiad pleserus, er y gallai beri nifer o heriau. Yr heriau hyn sy'n ei wneud yn ddiddorol. Cawsom rai diddorol wrth gynhyrchu *Loam*, yn amrywio o weithio gyda phlanhigion byw ar y llwyfan i gast o gymeriadau a oedd yn newid yn gyflym drwy gydol y sioe, a hefyd pryf clust maint llawn, y cyfan yn gorfod ymddangos ar y llwyfan un ar ôl y llall heb gyfleu i'r gynulleidfa yr holl newid a oedd yn digwydd gefn llwyfan. Mae llwyddo i oresgyn yr heriau hynny bob amser yn uchafbwynt.

BETH FYDDWCH CHI'N EI WNEUD NESAF?

Rydw i am deithio ychydig rhwng nawr a fy lleoliad gwaith nesaf. Unwaith y byddaf yn ôl yng Nghaerdydd, bydd y lleoliad gwaith hwnnw fel Dirprwy Reolwr Llwyfan ar gyfer cynhyrchiad o *The Hunchback of Notre-Dame* yn Theatr Richard Burton.

Llun wedi'i fewnosod: Myfyriwr presennol Jessica Forella.

UCHAFBWyNTIAU... GŴYL AMSERJAZZTIME



**I DDATHLU PEN-BLWYDD COLEG
BREHNINOL CYMRU YN 70 OED,
ROEDD Y RHAGLEN O WESTEION
AR GYFER GŴYL AMSERJAZZTIME
ELENI YN CANOLBWyNTIO AR
GYN-FYFYRWYR Y COLEG A'N
HARTISTIAID PRESWYL A
MYFYRWYR PRESENNOL.**

Bu cynulleidfaoedd yn mwynhau perfformiadau gan y cyn-fyfyrrwyr **Chris Hyson, Hannah Grace** a **Rebecca Nash** ymhlith eraill. Cafwyd hefyd lu o berfformiadau gan fyfyrrwyr Coleg Brenhinol Cymru a fu'n perfformio setiau drwy gydol yr ŵyl, yn cynnwys ein sesiynau AmserJazzTime yn y cyntedd sy'n cyflwyno'r artistiaidd jazz gorau sy'n dod i'r amlwg wythnos ar ôl wythnos.

DDOE A HEDDIW...

**MAE CBCDC WEDI NEWID
CYMAINT DROS Y BLYNYDDOEDD.
WEDI EIN HYSBRYDOLI GAN YR
#HER10MLYNEDD ELENI RYDYM
WEDI CYNNWYS LLUN O'R CAFFI
YN Y GORFFENNOL A SUT MAE'N
EDRYCH AR HYN O BRYD A FYDD
GOBEITHIO YN DEFFRO RHAI
ATGOFION O'CH CYFNOD FEL
MYFYRIWR. RHANNWCH EICH
LLUNIAU O'R GORFFENNOL DRWY
E-BOSTIO ALUMNI@RWCMD.AC.UK
AC FE WNAWN NI AIL-GREU
LLUNIAU'R PRESENNOL.**



ARCHIFAU: DATGELU EIN TREFTAETH

JUDITH DRAY (ARCHIFYDD CBCDC)

ELENI RYDYM YN NODI 70 MLYNEDD ERS SEFYDLU COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU. DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF RYDYM WEDI BOD YN PARATOI AR GYFER YR ACHLYSUR HWN DRWY ROI TREFN AR ARCHIFAU'R COLEG.

Hyd nes 2017 cadwyd archifau'r Coleg mewn amrywiol focsys yn yr islawr, a doedd gennym ni fawr o syniad beth oedd ynddynt. Dechreuodd Mandie Garrigan, un o'n cynorthwywyr llyfrgell, roi trefn ar yr archif, gan glirio gofod addas, rhestru cynnwys pob boc a chanfod trysorau di-ri tra'n gwneud hynny. Yna, llynedd fe'm penodwyd yn archifydd er mwyn gweithio gyda Mandie i roi trefn ar yr archif. Rydym wedi bod yn catalogio'r archif yn drylwyr, rhoi mynediad lle bo

hynny'n bosibl, cynnal prosiect gwirfoddoli er mwyn digideiddio ffotograffau hanesyddol bregus, ac arddangos rhai o'r uchafbwyntiau ar ffurf arddangosfeydd 'codi' mewn gwahanol ddogwyddiadau yn y Coleg. Ein bwriad yn y pen draw yw agor yr archif i ymchwilyr, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd i'w harchwilio.

Mae archifau'r Coleg yn adrodd stori llawn ysbrydoliaeth hanes y Coleg o'i ddechrau gwylaidd ym 1949, mewn dwy ystafell yng Nghastell Caerdydd, i'w gyflwr presennol fel un o brif conservatoires y DU gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf. Mae'r cannoedd o luniau, rhaglenni ac eitemau eraill yn yr archif hefyd yn rhoi cipolwg cyfoethog ac unigryw ar brofiadau myfyrwyr y gorffennol.

Llun: Yr Archifydd Judith Dray gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell Megan Wiley yn arddangos eitemau o archif y Coleg mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn 2018. Llun gan Nicola Lloyd.



CADWCH MEWN CYSYLLTIAD



Mae llawer o fanteision cysylltiedig ag ymuno â'r Cymdeithas Cyn-fyfyrrwyr. Ar wahân i'ch helpu chi i ailgysylltu â'ch cyfoedion, rydyn ni'n cynnig amryw o wasanaethau, gan gynnwys aelodaeth ostyngol o'r Llyfrgell am hyd at 3 blynedd wedi graddio, disgowntiau yn y swyddfa docynnau ac ar ofodau rihysal, gostyngiadau aelodaeth broffesiynol.

*Lun: Chanae Curtis yn The Marriage of Figaro.
Lun gan Robert Workman.*

**BYDDEM WRTH EIN BODD
PETAECH YN AIL-GYSYLLTU Â'R
CYN-FYFYRWYR. ANFONWCH
EICH STORÏAU ATOM, RHANNWCH
EICH LLUNIAU GYDA NI NEU BETH
AM GAEL RHAGOR O WYBODAETH
AM GYFRANOGI DRWY E-BOSTIO
ALUMNI@RWCMD.AC.UK.**

ADUNIAD CYN-FYFYRWYR CBCDC

DYDD SADWRN 28 MEDI 2019 | 5—9pm

yng NGHOLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

**GWNEWCH
NODYN O'R
DYDDIAD!**





Dalen gyferbyn: Ym mis Rhagfyr 2018 cynhaliodd CBCDC berfformiad arbennig ar gyfer Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, i ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed. Llun gan Kiran Ridley.

Brig: Catherine Zeta-Jones gyda Chynfyfyrwyr CBCDC yn y Gala Dydd Gŵyl Dewi yn Ystafell yr Enfys Efrog Newydd. Llun gan Travis Magee.

Uchod chwith: Aeth *Orchestradventure!* ar daith unwaith eto eleni, yn mynd i Lanfair-ym-Muallt a Llandudno yn ogystal â chynnal perfformiad yn Neuadd Dewi Sant, yn rhymer y Gwanwyn 2019. Llun gan Kirsten McTernan.

Uchod: Kirsten Evans, Gŵyl Awyrgylch. Llun gan Kirsten McTernan.

Chwith: Myfyrwyr Jazz yn Gala Efrog Newydd Catherine Zeta-Jones. Llun gan Travis Magee.